

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn  
**Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 10 Mehefin 2019 am 7:00p.m.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams ac Emrys Wynne.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. ETHOL CADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Gavin Harris fel Cadeirydd y Pwyllgor Amwynderau, ac ni chyflwynwyd unrhyw enwebiadau eraill.

**PENDERFYNWYD:** *yn unfrydol ethol y Cynghorydd Harris yn Gadeirydd y Pwyllgor Amwynderau am y flwyddyn ddinesig i ddod.*

**3. DATGAN BUDDIANNAU**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**4. CYLCH GWAITH Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**

Gofynnwyd i'r aelodau adolygu Cylch Gwaith y Pwyllgor Amwynderau, a mabwysiadu'r fersiwn derfynol. Cynigiwyd ychwanegu brawddeg i adlewyrchu bod y Pwyllgor Amwynderau'n cydlynu a chefnogi'r Tîm Tref Taclus, adolygu'r Cylch Gwaith yn flynyddol ac ychwanegu tabl i nodi pryd y mabwysiadwyd y Cylch Gwaith, eu hadolygu a dyddiad yr adolygiad nesaf.

**PENDERFYNWYD:** *diweddarau'r Cylch Gwaith fel yr amlinellwyd uchod, a mabwysiadu'r fersiwn ddiwygiedig.*

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 7 Mai 2019 yn gywir.*

**6. MATERION YN CODI**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr arolwg topgraffegol a oedd wedi'i oedi oherwydd tywydd gwael, a chynigiodd gysylltu gydag Angle Surveys i ganfod pryd y byddai'r arolwg yn cael ei gwblhau.

**7. DYFYNBRIS DYFRIO COED**

Derbyniwyd dyfynbris gan gwmni Llanfwrog CIC yn nodi mai cost dyfrio'r coed fyddai £10 y goeden. Mae cyfanswm o wyth coeden, ac roedd yr aelodau'n dymuno i'r coed newydd eu plannu gael eu dyfrio'n wythnosol tan ddiwedd mis Medi.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn y dyfynbris a rhoi cyfarwyddiadau i'r contractwr ddyfrio'r coed newydd eu plannu'n wythnosol tan ddiwedd mis Medi.*

**8. Y CRAEN WRTH FYNEDFA'R GANOLFAN GREFFT**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau ynghylch cyflwr y craen. Cynigiodd y Cynghorydd Emrys Wynne gysylltu gydag Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych i ganfod pwy sy'n berchen ar y craen ac adrodd yn ôl.

**PENDERFYNWYD:** *canfod pwy sy'n berchen ar y craen ac ystyried y camau nesaf unwaith y derbynnir y wybodaeth honno.*

**9. ADOLYGU'R MEINCIAU CYHOEDDUS YN RHUTHUN**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynnal adolygiad o'r meinciau cyhoeddus yn y dref, ar sail y rhestr a ddarparwyd gan y Clerc. Holodd yr aelodau am y meinciau ar Gwningar y Castell, ac esboniwyd eu bod yn cael eu storio oherwydd pryderon iechyd a diogelch am y wal nesaf at lwybr Cwningar y Castell. Awgrymodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Clerc yn cyfarfod cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Amwynderau i nodi'r meinciau ar fap a dynode ardal i'r aelodau i dynnu lluniau'r meinciau mewn ardal benodol fel sail i'r adolygiad.

**PENDERFYNWYD:** y byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn gwneud yr ymarfer mapio cyn y cyfarfod nesaf a thrafod hyn yn fanylach yn y cyfarfod nesaf.

#### **10. TRWCIO CLOC WAL R G JOYCE Y CYNGOR TREF**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dyfynbriais gan Smith's of Derby i atgyweirio'r pwli ac ailosod cordyn pwysau newydd a'r pwli yn y cloc. Awgrymwyd gohirio'r gwaith trwsio tan yr Hydref a'i wneud unwaith y bo'r cloc wedi'i symud i'r Hen Lys.

**PENDERFYNWYD:** gohirio'r gwaith trwsio nes bo'r cloc yn ei le yn yr Hen Lys.

#### **11. TÎM TREF TACLUS**

Adroddodd y Cadeirydd bod y Tîm wedi cyfarfod ar 8 Mehefin, gan ganolbwyntio ar godi sbwriel oherwydd y tywydd gwlyb. Cynhelir y sesiwn nesaf ddydd Gwener, 21 Mehefin am 11am. Cyfeiriodd aelodau at y chwyn i'r chwith o fynedfa maes parcio Stryd y Farchnad, gyda chais i gysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch hyn.

**PENDERFYNWYD:** nodi dyddiad y sesiwn Tîm Tref Taclus nesaf a chysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch y chwyn i'r chwith o fynedfa maes parcio Stryd y Farchnad.

#### **12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 8 Gorffennaf 2019 am 7:00pm.